# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Cynllun Gweithredu Sgiliau- Rhoi'r Datganiad Polisi ar Sgiliau ar Waith

### Cyd-destun

1. Ar 30 Ionawr 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad Polisi ar Sgiliau, yn nodi gweledigaeth ar gyfer cenedl hynod o fedrus a chystadleuol yn y dyfodol. Roedd y Datganiad yn cydnabod yr heriau amrywiol y bydd Cymru yn eu hwynebu dros y ddegawd nesaf, gan gynnwys proffil sgiliau sy'n newid ar gyfer swyddi yn y dyfodol, a chynaladwyedd y system sgiliau o ystyried yr angen i godi lefelau buddsoddiad ar adeg pan fo'r adnoddau sydd ar gael yn brin. Roedd y Datganiad yn nodi'r gofyniad i feithrin cysylltiadau cryf gyda'r system addysg cyn-19 er mwyn sicrhau bod gweithlu'r dyfodol yn fedrus iawn ac yn cael ei gynorthwyo gan sylfaen cadarn o sgiliau llythrennedd a rhifedd. Er mwyn cael system sgiliau gynaliadwy, mae angen i ni sicrhau bod y ddarpariaeth addysg a sgiliau yn cyd-fynd yn agos gyda'r sgiliau y mae angen i gyflogwyr eu cael hefyd, a bod cyflogeion heddiw ac yfory yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i ymuno â'r farchnad lafur ac i ffynnu ynddi.

2. Mae pedair thema'r Datganiad Polisi fel a ganlyn:

   - **Sgiliau ar gyfer swyddi a thwf:** sut mae modd i Gymru ysgogi'r galw am gymdeithas fwy medrus sy'n gallu ysgogi ein heconomi gan ganlyn swyddi a thwf

   - **Sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol:** system sgiliau sy'n adlewyrchu anghenion cymunedau lleol, gan gynnwys cynnig hyblyg a hwylus o ran cyflogaeth a sgiliau

   - **Sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr:** pwysigrwydd ymgysylltu gyda chyflogwyr fel eu bod yn cyfranogi yn y system sgiliau, a lefel y cyd-fuddsoddiad sy'n ofynnol law yn llaw gyda'r llywodraeth os yw Cymru yn mynd i barhau i fod yn gystadleuol

   - **Sgiliau ar gyfer cyflogaeth:** rôl y system sgiliau wrth ddarparu'r cymorth cyflogaeth sy'n angenrheidiol i gynorthwyo unigolion i sicrhau cyflogaeth ac i sicrhau cynnydd yn y gwaith

3. Cyhoeddir Cynllun Gweithredu ym mis Gorffennaf 2014, a fydd yn nodi manylion y camau gweithredu polisi a'r amserlen er mwyn cyflawni fel yr amlinellir isod.

### Sgiliau ar gyfer swyddi a thwf

4. Bydd y ffocws ar gyflawni portffolio integredig o gymorth Cyflogaeth a Sgiliau a fydd yn gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol yn unol â llwybrau cyson ac wedi'u diffinio mewn ffordd eglur. Byddwn yn cyflwyno Rhaglen Sgiliau Hyblyg a fydd yn targedu anghenion sgiliau a recriwtio cwmnïau sy'n bwysig ar lefel strategol. Yn ogystal, byddwn yn datblygu ein hymagwedd lwyddiannus o ran y Gronfa Blaenoriaethau Sector trwy gyfrwng Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau newydd, gan sicrhau ein bod yn meddu ar ddarpariaeth sgiliau sy'n ymateb i

gyflogwyr ac y mae'n cynorthwyo ein hagenda Swyddi a Thwf, ac y mae'n hollol integredig gyda chymorth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer byd busnes.

5. Yn ogystal, mae angen i ni ysgogi'r galw am gymdeithas fwy medrus sy'n ysgogi'r economi wrth ganlyn swyddi a thwf. Mae hyn yn gofyn am ffocws ar gyfleoedd i dyfu'r galw am sgiliau, er enghraifft trwy gyfrwng cysylltiadau gyda phrosiectau seilwaith mawr a mewnfuddsoddwyr, yn ogystal â chadwyni cyflenwi sy'n eu cynorthwyo, er enghraifft fel rhan o Ddinas-ranbarthau ac Ardaloedd Menter, gan gydweithio'n agos gydag Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (DEST). Mae hyn yn cynnwys cyflawni manteision i Gymru trwy gyfrwng mentrau caffael cyhoeddus sy'n hyrwyddo datblygu sgiliau ac sy'n cydnabod cyflogwyr sy'n buddsoddi yn eu gweithlu.

6. Yn olaf, rydym yn gwybod bod y gyfradd or-gymhwyso ymhlith y gweithlu yng Nghymru wedi codi rhwng 2011 a 2013, o 13% i 21%. At hynny, mae nifer y cwmnïau sy'n adrodd am danddefnyddio sgiliau wedi codi hefyd (45% i 50%) ac mae hyn er gwaethaf y ffaith nad yw'r ffigurau cyfunol ar gyfer y DU gyfan wedi newid. Mae'n amlwg bod cyfleoedd i weithio gyda chyflogwyr i ddatblygu arferion gwaith sy'n sicrhau perfformiad uwch, fel bod sgiliau yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol law yn llaw gyda'r newidiadau sy'n digwydd ar draws yr economi ehangach.

**Sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol**

7. Ein nod yw cynnig cymorth cyflogaeth a sgiliau cydgysylltiedig sy'n adlewyrchu anghenion cymunedau lleol. Caiff hwn ei seilio ar gynnig sgiliau a chyflogaeth mwy syml a hygyrch i gyflogwyr ac unigolion, y bydd modd manteisio arno trwy gyfrwng Porth Sgiliau newydd. Bydd y Porth Sgiliau yn cynnig un gwasanaeth ymgysylltu, asesu a chyfeirio ar gyfer unigolion a busnesau sy'n manteisio ar gymorth sgiliau, a bydd yn fecanwaith allweddol i feincnodi perthnasedd ac addasrwydd y ddarpariaeth sgiliau a ddarparir. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth gadarn am y farchnad lafur ar lefel ranbarthol ac ar lefel Cymru gyfan i gyfrannu at ein penderfyniadau polisi a'n blaenoriaethau ar gyfer cyllid yn y dyfodol, yn gysylltiedig gyda'n polisi cyd-fuddsoddi.

8. Mae tirlun darparu wedi'i ddiffinio mewn ffordd eglur ac sy'n sicrhau cwmpas digonol ac yn osgoi dyblygu a chystadleuaeth, gan ystyried anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol hefyd, yn allweddol i ddarparu cymorth cyflogaeth a sgiliau llwyddiannus ar draws Cymru. Bydd angen i'r Datganiad Polisi grisialu'r ddynameg leol a rhanbarthol o ran sut y caiff sgiliau eu datblygu a'u defnyddio gan gyflogwyr.

9. Bydd hyn yn golygu cydweithio'n agos gyda phartneriaethau sgiliau rhanbarthol y mae ganddynt gysylltiadau cryf gyda'r Dinas-ranbarthau yn ogystal ag Ardaloedd Menter. Y nod allweddol fydd sicrhau ein bod yn gweithio gyda chyflogwyr a phartneriaid allweddol ar draws Cymru i ymateb mewn ffordd effeithiol i anghenion sgiliau cyflogwyr ac unigolion ar lefel leol a manteisio ar gyfleoedd yn y farchnad lafur ranbarthol. Byddwn yn cydweithio'n agos gyda DEST i sicrhau bod y ddarpariaeth ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cyd-fynd gyda'r Fframwaith Economaidd sy'n cael ei ddatblygu gan DEST.

**Sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr**

10. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu safonau a chymwysterau perthnasol i gyflogwyr ac unigolion yng Nghymru, gan adolygu llwybrau i ddysgu uwch er mwyn sicrhau bod llwybrau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yn eglur, yn ddealladwy ac yn gyson. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu gyda chyflogwyr trwy gydol y broses o ddatblygu a chyflawni rhaglenni hyfforddiant, a'n bod yn buddsoddi yn y sgiliau y mae eu hangen ar gyflogwyr. Bydd darparu sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi yn ffactor pwysig iawn hefyd yn yr achos dros gael mwy o gyd-fuddsoddiad gan gyflogwyr mewn sgiliau.

11. Mae'r maes hwn o ran cyd-fuddsoddiad, sef rhannu'r costau rhwng llywodraeth, cyflogwyr ac unigolion, yn allweddol i gyflawni ein nod i Gymru ar gyfer y tymor hwy, sef gweithlu sy'n sicrhau lefelau cyflogaeth, cynhyrchiant a lles y maent yn cymharu'n dda gyda'r DU a gweddill Ewrop. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau defnydd cost-effeithiol o gronfeydd cyhoeddus sy'n cynnig manteision economaidd a chymdeithasol da.

12. Mae tystiolaeth eisoes yn awgrymu nad yw Cymru yn llwyddo i sicrhau buddsoddiad mewn a gweithgarwch ymgysylltu gyda sgiliau ar yr un lefel â'r hyn a welir yng nghenhedloedd eraill y DU. Ar hyn o bryd, cyflogwyr yng Nghymru yw'r lleiaf tebygol o adrodd eu bod wedi ariannu neu drefnu unrhyw hyfforddiant yn ystod y 12 mis blaenorol (62% o'i gymharu gyda'r cyfartaledd ar gyfer y DU sef 66%)[1]. Er bod cyfanswm y gwariant fesul cyflogai wedi codi yn ystod 2013 o'i gymharu gyda'r sefyllfa yn 2011, mae Cymru yn parhau i fod y tu ôl y DU o ran lefelau buddsoddi cyffredinol, ac yn bwysicach na dim, hi yw'r isaf o blith holl genhedloedd y DU[2]. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer y diwrnodau hyfforddiant a ddarparwyd gan gyflogwyr dros y 12 mis diwethaf yn 2013 o'i gymharu gyda 2011 (5.6m diwrnod i fyny o 4.9m yn 2011)[3].

13. Gan ymateb i'r her hon, cychwynnwyd ymgynghoriad ynghylch *"Cydbwyso’r cyfrifoldebau am fuddsoddi mewn sgiliau: cynigion ar gyfer buddsoddi ar y cyd mewn darparu sgiliau ôl-19"* ar 21 Chwefror, a oedd yn ceisio casglu safbwyntiau cyflogwyr, rhanddeiliaid allweddol ac unigolion ynghylch sut y caiff cyd-fuddsoddi rhwng llywodraeth, cyflogwyr ac unigolion ei weithredu yng Nghymru. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 16 Mai 2014 ac mae modd troi ato ar-lein, trwy droi at:

    http://www.wales.gov.uk/consultations/education/proposals-for-co-investment-in-post-19-adult-skills-delivery/?lang=cy

14. Her cyd-fuddsoddi yw datblygu ysgogiadau polisi sy'n gallu cynnig cymhelliant i gyflogwyr i fuddsoddi mewn sgiliau, gan gydnabod prinder cyffredinol adnoddau yn y pwrs cyhoeddus i greu a darparu ysgogiadau o'r fath. Bydd y gweithredu hwn yn gofyn am newid diwylliannol ymhlith cyflogwyr, wrth iddynt gydnabod eu cyfrifoldeb dros godi lefel sgiliau eu gweithlu. Law yn llaw gyda hyn, mae angen

---

[1] Arolwg Sgiliau Cyflogwyr UKCES 2013
[2] Arolwg Sgiliau Cyflogwyr UKCES 2013
[3] Arolwg Sgiliau Cyflogwyr UKCES 2013

i'r llywodraeth a'i rhanddeiliaid allweddol greu'r amodau er mwyn i rwydweithiau o gyflogwyr ymateb ar y cyd i anghenion sgiliau y gwelwyd tystiolaeth ohonynt ar lefel leol a rhanbarthol, gan weithio trwy gyfrwng partneriaethau rhanbarthol sefydledig y maent yn cyd-fynd yn agos gyda Dinas-ranbarthau yn ogystal ag Ardaloedd Menter perthnasol.

15. Bydd ymagwedd gyson ar draws yr holl randdeiliaid a llywodraeth yn allweddol er mwyn gweithredu'r polisi cydfuddsoddi. Mae angen i ni sicrhau bod yr amodau'r un fath i unigolion a chyflogwyr fanteisio ar gymorth, gan sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu gyda'r un egni ar draws pob ffurf o gyllid llywodraethol ac Ewropeaidd. Efallai y bydd goblygiadau ar gyfer rhannau eraill o'r system addysg yng Nghymru, yn enwedig pan fo dysgu eisoes yn cael ei gynorthwyo trwy gyfrwng rhyw fath o drefniant cydariannu. Mae'r adolygiad o Addysg Uwch a chyllid i fyfyrwyr a arweinir gan Syr Ian Diamond yn arwyddocaol, y mae'n ystyried cynaladwyedd trefniadau ariannol sy'n cynnig sail i'r sgiliau a ddarparir trwy gyfrwng y sector Addysg Uwch yng Nghymru.

**Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth**

16. Byddwn yn sicrhau bod ein cymorth cyflogaeth yn cyd-fynd mewn ffordd fwy effeithiol gyda'r cynnig a wneir gan Lywodraeth y DU. Bydd hyn yn gofyn am adnabod cyfleoedd ar gyfer mwy o gysondeb a chyflenwoldeb o ran cymorth ar draws y tirlun cyflogaeth a sgiliau cyfan, ond gan wneud cyfeiriad penodol at alinio gwasanaethau gyda chymorth prif ffrwd ar lefel y DU. Trwy gyfrwng gweithgor ar y cyd "Manteisio ar Gyflogaeth" Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, a Swyddfa Cymru, byddwn yn adolygu trefniadau cymorth presennol ar gyfer unigolion di-waith yng Nghymru er mwyn symleiddio'r cyfleoedd i fanteisio ar raglenni cyflogaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Byddwn yn canolbwyntio ar egwyddor gwaith yn gyntaf fel bod modd i unigolion, pryd bynnag y bo modd, fanteisio ar brofiad gwaith a lleoliadau swyddi, gan ddatblygu llwyddiant rhaglenni sy'n bodoli eisoes megis Twf Swyddi Cymru.

17. Yn ogystal, byddwn yn gweithredu er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau a wnaethpwyd yn y Datganiad Polisi er mwyn gwella Sgiliau Hanfodol oedolion yng Nghymru. Byddwn yn canolbwyntio ar wella lefelau Sgiliau Hanfodol oedolion cyflogedig a di-waith, ac ar gynyddu nifer yr oedolion y maent yn barod i gychwyn mewn cyflogaeth barhaol. Byddwn yn cynorthwyo unigolion i wella'u Sgiliau Hanfodol fel eu bod yn y sefyllfa orau i fanteisio ar gyfleoedd gwaith a/neu sicrhau cynnydd unwaith y byddant yn y farchnad lafur. Wrth ystyried dewisiadau cymorth ar gyfer y dyfodol, byddwn yn ystyried y potensial i ddatblygu llwyddiant dulliau gweithredu presennol megis Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF), hyrwyddo cyfleoedd i ymgorffori Sgiliau Hanfodol fel rhan o raglenni hyfforddiant galwedigaethol y brif ffrwd ymhellach, a defnyddio cymhellion megis Addewid Cyflogwyr gyda ffocws newydd er mwyn ymgysylltu rhagor o gyflogwyr gyda'r gwaith o ddarparu Sgiliau Hanfodol.

**Casgliad**

18. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu addysg a sgiliau ar gyfer Cymru lewyrchus. Bydd hyn yn gofyn i ni gynyddu nifer y bobl mewn cyflogaeth, sicrhau system sy'n darparu addysg a sgiliau o ansawdd uchel, a sicrhau ein bod yn helpu i godi lefel

y cynhyrchiant a'r arloesedd ymhlith y gweithlu a'u cyflogwyr. Mae angen i ni sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau yn cyd-fynd yn agos gyda'r galw ymhlith cyflogwyr ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, a'i bod yn ein galluogi i fanteisio ar gryfderau a chyfleoedd Cymru.

19. Mae'r Datganiad Polisi ar Sgiliau yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd i Gymru. Yn dilyn ein hymgynghoriad ynghylch cyd-fuddsoddi, bydd y Cynllun Gweithredu yn nodi'r camau gweithredu polisi sy'n ofynnol er mwyn sicrhau system sgiliau gynaliadwy i Gymru a'r amserlen er mwyn eu cyflawni. Bydd hyn yn gofyn am waith cadarn a pharhaus mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth, cyflogwyr, unigolion a rhanddeiliaid allweddol.